Grŵp Trawsbleidiol ar Gymru Ryngwladol

Recriwtio myfyrwyr rhyngwladol mewn Addysg Uwch
3 Rhagfyr 2020

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AS (Cadeirydd)

Dai Lloyd, AS

Mia Rees, Senedd Cymru
Heledd Roberts, Senedd Cymru
Ioan Bellin, Senedd Cymru
Ryland Doyle, Senedd Cymru

Phil Stephens, Prifysgol Caerdydd
Sian Impey, Prifysgol Abertawe
Lee Bartlett, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Omer Rana, Prifysgol Caerdydd
Siobhan Robinson, Prifysgol Caerdydd
Giles Jacobs, Prifysgol Aberystwyth
Iwan Davies, Prifysgol Bangor
Donal O'Connor, Prifysgol De Cymru
Gwen Williams, Prifysgolion Cymru
Aulay Mackenzie, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Leigh Robinson, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rhiannon Hughes, Cidwm Cymru
Rob Humphreys, Pwyllgor Cynghori'r British Council
Matt Durnin, British Council
Pia Fernanda Villanueva Guzman, British Council

Jenny Scott, Cyfarwyddwr, British Council Cymru
Dr Walter Ariel Brooks, British Council Cymru
Alison Cummins, British Council Cymru
Lyndsey Halliday, British Council Cymru
Rosa Bickerton, British Council Cymru (cofnodion)

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd y grŵp.

2. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Etholwyd Rhun ap Iorwerth yn Gadeirydd a chytunodd ar British Council Cymru fel yr ysgrifenyddiaeth.

3. Cyflwyniad gan Matt Durnin, Pennaeth Mewnwelediad ac Ymgynghoriaeth, British Council ar dueddiadau diweddar ym maes recriwtio myfyrwyr byd-eang ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU.

Nododd Matt y cynnydd aruthrol yn nifer y bobl o Tsieina sydd wedi astudio dramor yn ystod y 15 mlynedd diwethaf; twf blynyddol ffigurau dwbl parhaus. Dywedodd fod diffyg data perthnasol neu'u tebyg i'w cymharu hefyd, ond bod y British Council modelau rhagamcanu o'r hyn y gallem ddisgwyl ei weld yn digwydd yn Tsieina wedi cael eu seilio ar Japan, sef marchnad a welodd sefyllfa debyg o dwf uchel cyflym.

Dywedodd Matt fod y rhagolygon yn dangos y bydd nifer y myfyrwyr sy'n gadael Tsieina i astudio yn cyrraedd penllanw erbyn 2022/23 ac y bydd yn gostwng wedyn, a hynny oherwydd ffactorau megis twf economaidd yn arafu, gostyngiad yn nifer y bobl ifanc, a gwelliant cyson ym marchnad ddomestig Tsieina. Mae'n ddigon posibl y bydd y twf yn parhau oherwydd gwerth cymdeithasol astudio dramor, ac ni all y model ystyried popeth.

Tsieina yw'r farchnad recriwtio ryngwladol bwysicaf, ac felly y bydd am gryn amser; mae'n fwy o dipyn na'r un arall o'r 10 marchnad recriwtio fwyaf yn y DU.

O ran y cyrchfannau astudio Saesneg, yr ydym yn cystadlu â nhw, UDA ac Awstralia yw ein cystadleuwyr mwyaf, ond mae recriwtio o Tsieina i UDA yn gostwng.

Ble fydd y Tsieina nesaf? Dywed Matt nad oes un. Lle mae dosbarth canol cynyddol, lefel uchel o addysg sylfaenol a chyflymder twf cyflym yn y cwestiwn, ni welwn eu tebyg ddim unman arall o'r byd ar yr un raddfa. Mae marchnadoedd eraill a nodwyd yn llawer llai ac yn datblygu'n fwy graddol o'u cymharu, ond dylai fod cyfleoedd yn India, Indonesia a Nigeria. Y dosbarth canol byd-eang sy'n gyrru'r duedd at astudio tramor, a'r dangosydd hwn sy'n cael ei ddefnyddio i ragweld pa gyfleoedd fydd yn y dyfodol mewn gwledydd eraill.

Cyfeiriodd Matt at y gwaith arolwg y mae'r British Council wedi bod yn ei wneud ar effaith Covid-19 ar gynlluniau astudio. Yn Tsieina, mae lefelau uchel o ansicrwydd yn parhau o ran teithio, llawer mwy yn Tsieina na gwledydd eraill. Er enghraifft, mae gan India fwriadau uwch i gadw cynlluniau astudio ar waith. Nid fisâu na chost yw'r brif ystyriaeth i fyfyrwyr Tsieina, ond pryderon am iechyd. Mae Fietnam yn rhannu'r pryderon hyn. Mae hefyd broblemau oherwydd y sôn am ambell ymosodiad hiliol yn erbyn pobl o gefndiroedd Asiaidd, gan fod hyn yn effeithio ar benderfyniadau rhieni a myfyrwyr. Mae ymgeiswyr am fisâu ar gyfer Ch3 yn isel, ond mae hynny i'w ddisgwyl.

Wrth edrych ymlaen at hydref 2021, mae diffyg data ar gael hyd yn hyn, ond mae'n edrych yn debyg y bydd myfyrwyr yn gwneud y penderfyniad i astudio dramor yn llawer hwyrach nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Rhannodd Matt sleidiau ar addysg drawswladol (TNE) yn Tsieina, sef rhaglenni sefydliadau'r DU a gyflenwir dramor, boed hynny ar gampws cangen neu drwy raglen ar y cyd. Erbyn heddiw, Tsieina yw'r farchnad fwyaf ar gyfer TNE. Cafodd y DU ei goddiweddyd yn ddiweddar gan UDA am y gyfran fwyaf o'r farchnad wrth gyflenwi'r rhaglenni hyn.

Dechreuodd arafiad yn 2014, oherwydd bod amgylchedd rheoleiddio llym yn ei gwneud yn anoddach i raglenni gael eu cymeradwyo yn Tsieina ac oherwydd y mynegai gwerth-am-arian isel, gan fod ffioedd dysgu'r rhaglenni hyn yn gymharol isel ond yn ddwys o ran adnoddau staff, yn enwedig gan fod Tsieina yn capio ffioedd dysgu ac yn gorfodi i'r cyrsiau hyn gael eu dysgu yn y wlad honno, sy'n golygu diffyg symudedd. Mae'r British Council wedi cyhoeddi papur

newydd allan ar y cyd â UUKi ar symudedd trwy bartneriaethau; tynnodd Matt sylw at bwysigrwydd hyn i Gymru gan fod mwy o fyfyrwyr yn dod i Gymru trwy'r graddau partneriaeth drawswladol hyn nag sydd yn dod trwy raddau safonol. Fodd bynnag, mae llawer o fyfyrwyr o Tsieina a Maleisia yn dal i ddod trwy'r llwybrau hyn.

https://www.britishcouncil.org/education/ihe/knowledge-centre/transnational-education/tne-routes-uk-he

4. Cyflwyniad gan yr Athro Iwan Davies, Is-ganghellor Prifysgol Bangor a Chadeirydd Cymru Fyd-eang (partneriaeth rhwng y British Council, Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru a CCAUC).

Dywedodd Iwan ei bod yn hanfodol i'r sector yng Nghymru wella eu mantolenni a dychwelyd i sefyllfa cyn-Covid, gan sicrhau adferiad ar ffurf V. Rhaid i Gymru sicrhau ein bod yn adlewyrchu heriau daearwleidyddol delio â Tsieina a rhoi'r negeseuon cywir er mwyn alinio â'r cyfleoedd a'r peryglon o ran sut y canfyddir ymateb y DU i Covid.

Bydd gan Gymru 27 o farchnadoedd newydd ym mis Ionawr wrth i'r DU adael yr UE a rhaid iddi gynnal y cyswllt hwnnw mewn ffordd sy'n cyfleu'r berthynas arbennig. Rhaid i Gymru fel cyrchfan astudio hefyd apelio at fyfyrwyr yng ngweddill y DU, a dylid adlewyrchu hyn yn y brand Study in Wales.

Mae myfyrwyr tramor yn cyfrannu £500 miliwn i economi Cymru, 4 y cant o gynnyrch domestig gros (CDG) a dwywaith gymaint y ffigur ar gyfer amaethyddiaeth. Mae'r DU wedi colli cyfran o'r farchnad mewn 17 o'r 21 farchnad ryngwladol allweddol. Cyn Covid, cyhoeddodd y DU ei Strategaeth Ryngwladol ar gyfer Addysg Uwch; nodir uchelgais glir i gynyddu gwerth myfyrwyr tramor ledled y DU o £21 biliwn i £25 biliwn, a chynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol o 470,000 i 600,000. Bydd y DU yn cyhoeddi strategaeth newydd ymhen ychydig wythnosau ac mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y sector yng Nghymru yn rhan o'r broses honno.

Nododd Iwan mai un o brif ddifidendau datganoli yw gallu'r sector yng Nghymru i weithio'n golegol mewn ffordd na all eraill yn Lloegr, a rhaid inni weld y sector yng Nghymru nid yn unig yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhyngwladol fel prifysgolion unigol, ond yn alinio â gwledydd blaenoriaeth.

Strategaeth Addysg Ryngwladol y DU Mawrth 2019:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/799349/International_E EDUCATION_Strategy_Accessible.pdf

Soniodd Iwan am y memorandwm cyd-ddealltwriaeth â thalaith Telangana yn India a lofnodwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, Cymru Fyd-eang a'r British Council. Nododd Iwan nad bargen allforio myfyrwyr yw dulliau dwyochrog fel hyn, ond mater o ymgysylltu â dull system-i-system, gan fod llywodraethau am weithio ar y cyd i gau'r diffygion sgiliau, i gydweithredu ar ymchwil, ac i annog symudedd.

Mae menter Cymru Fyd-eang yn caniatáu i Lywodraeth Cymru weithio wrth graidd prifysgolion, y British Council a'n rheoleiddiwr CCAUC, gan ganiatáu dull cwbl gyfannol sydd o fudd eang i bawb.

Mae Iwan yn honni y dylem fod yn datblygu i Gymru ei hysgoloriaethau a'i rhaglenni symudedd ei hunan - fel offeryn ar gyfer pŵer meddal Cymru.

Mae'n nodi bod angen i ni feithrin ein gwledydd blaenoriaeth a'n rhwydweithiau rhanbarthol ein hunain, gan gynnwys gwledydd Celtaidd a Gwlad y Basg, ein rhwydweithiau a ddatblygwyd trwy Gymru o Blaid Affrica, a'n rhwydweithiau Cymry ar wasgar.

Mae cydweithio - pontio - yn allweddol i hyn. Mae gweithio gyda'r Adran Masnach Ryngwladol, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a Llywodraeth y DU yn allweddol, ond mae'n rhaid i ni lunio ein hunaniaeth ein hunain oddi mewn rwydwaith Cymru Fyd-eang.

5. Sylwadau o amgylch y bwrdd

- Gofynnodd Jenny Scott i Matt Durnin beth yw'r heriau i farchnadoedd y dyfodol.

  Ymatebodd Matt na fyddai pob marchnad yn y dyfodol yn dilyn yr un trywydd serth o dwf mewn recriwtio ac addysg drawswladol a welwyd yn Tsieina. Soniodd am Nigeria, a oedd yn tyfu’n gryf gyda chyfran fawr o’r farchnad i’r DU tan y gwymp yn y farchnad nwyddau. Ers hynny, mae cyfran marchnad y DU wedi gostwng, gyda gwledydd eraill Saesneg-eu-hiaith yn perfformio'n well na ni, gan ddangos bod cystadleuwyr yn gwneud rhywbeth yn iawn nad oedd y DU yn ei wneud. Mae Indonesia yn farchnad hirdymor ddiddorol, ond nid yw'r datblygiad economaidd yno ar gyfer astudio dramor ar raddfa fawr ac mae Awstralia yn gryfach o lawer yno fel cystadleuydd.

- Gofynnodd Rhun ap Iorwerth a ydym ni'n gweld bod y farchnad ar gyfer addysg ryngwladol yn llawer llai yn India ac Indonesia na Tsieina oherwydd demograffig llai o ran incwm canolig/uwch. Nid yw'r farchnad y mae gwledydd fel UDA neu'r DU yn edrych amdani i'w chael o ran swmp. A yw hyn yn golygu bod cyfle i Gymru ffocysu adnoddau ar y gwledydd hyn gan y gallem dorri drwodd, ac mae angen llai o niferoedd arnom i wneud gwahaniaeth?

  Ymatebodd Matt fod chwilio am gyfleoedd arbenigol yn strategaeth addas iawn i Gymru. Wrth inni fynd y tu allan i Tsieina, India a'r Unol Daleithiau, ceir bod adnoddau wedi’u gwasgaru’n denau iawn, felly gallai Cymru ganolbwyntio ar fuddsoddi ac adeiladu ei brand mewn ychydig o wledydd wrth iddynt ddatblygu.

  Ymatebodd Iwan fod gan Gymru fantais gystadleuol trwy ddefnyddio llwyfannau sy'n cael eu datblygu ar y cyd, ac adnoddau'n sy'n cael eu rhannu trwy ein platfform Cymru Fyd-eang. Dywed Iwan fod dull cyfunol Cymru (trwy Cymru Fyd-eang) yn sicrhau y gallwn ddarparu 'siop un-stop' ac ateb y galw ar gyfer gwledydd sy'n chwilio am feysydd sgiliau penodol, meysydd ymchwil ac ati. Soniodd Iwan y gallai fod angen partneru â chwmnïau preifat, Pearson, Future Learn, Gwasg Prifysgol Caergrawnt - sydd ag asedau digidol sylweddol y gallwn geisio eu defnyddio.

  Cefnogodd Matt ddatganiad Iwan fod gweithio mewn consortia yn beth doeth iawn, gan ei fod yn lledaenu'r risg. Yn y marchnadoedd lle mae gan y DU gyfran hanesyddol isel o'r farchnad, fe welwyd bod y dull cyfunol hwn yn gweithio'n dda; h.y. cafwyd llwyddiant yn Ne America o brifysgolion y DU yn gweithio gyda'i gilydd, yn mynd i ffeiriau gyda'i gilydd, yn ymgysylltu â myfyrwyr gyda'i gilydd.

- Yng nghyd-destun Covid-19, a yw Iwan yn teimlo y cawn yr adferiad siâp V sydd ei angen arnom?

Nododd Iwan fod gennym nifer o fyfyrwyr yn astudio dramor ar hyn o bryd - felly nid yw'n ofynnol i fyfyrwyr fod yn y wlad tan yn hwyr yn y flwyddyn. Roedd yr ystadegau a ddarparwyd gan Matt yn dangos cwymp o 60 y cant yn fisâu myfyrwyr rhyngwladol, ac mae hynny'n peri pryder. Dywedodd Iwan nad mater Covid yn unig yw hwn; cyn Covid, roedd y DU i lawr 17 o'r 21 farchnad ryngwladol allweddol. Mae gan Gymru gyfle i fod yn groesawgar iawn a bod yn ddeniadol y ffordd honno.

- A fydd blwyddyn o gynnwrf yn arwain at newidiadau tymor hir?

Cyfeiriodd Iwan at gyflwyniad Matt a dywedodd fod canran sylweddol o'n myfyrwyr rhyngwladol yn dod o bartneriaethau - mae'n gweld hyn fel cryfder yn hytrach na gwendid, ac mae sefyllfa Lloegr yn fwy bregus, gan fod Cymru yn llai rhwym wrth asiantau ac wedi datblygu perthnasoedd â sefydliadau rhyngwladol. Mae angen inni estyn allan at ein ffrindiau a datblygu ein cynnig gyda symudoleddau, ysgoloriaethau a mwy.

Dywedodd Matt fod rheoli profiad myfyrwyr yn anodd; mae adnoddau ar-lein wedi cael eu cyflwyno'n rhyfeddol o gyflym eleni. Y gwir amdani yw nad yw myfyrwyr rhyngwladol yn dod am y profiad ar-lein. Mae'r British Council yn ymholi am ganfyddiadau myfyrwyr o astudio ar-lein yn gyson; mae llawer o flinder ynglŷn â hynny. Rydym wedi codi'r bar o ran addysg ar-lein; mae'n fwy derbyniol nawr, ond nid yw'n disodli profiad rhyngwladol holl-gynhwysol. Mae gennym nifer fawr o fyfyrwyr dramor ar hyn o bryd, ac ni wyddom am ba hyd y gallwn eu cadw gyda dysgu ar-lein yn unig. Dywedodd Matt fod bywyd ar lawr gwlad yn nwyrain Asia wedi mynd yn ôl i normal, felly rydym ar ei hôl hi yn y DU ac felly mae aros gartref ac astudio mewn sefydliadau domestig yn dod yn llawer mwy apelgar. Mae cynnig profiadau rhwydweithio â myfyrwyr eraill neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o ymgysylltu â myfyrwyr dramor yn allweddol os ydym am eu cadw.

- Gofynnodd Gwen Williams i Matt a fu ymchwil i ganfyddiadau o'r DU fel cyrchfan astudio ym marchnadoedd yr UE.

Dywedodd Matt fod y British Council yn cynnal ymchwil i hyn, gyda'r canlyniadau i'w rhannu fis nesaf. Mae gan yr Adran Addysg ymchwil i hyn, ond mae oedi cyn iddo gael ei gyhoeddi. Mae Matt o'r farn nad ffioedd yw'r prif faterion yn y maes hwn ond mynediad at fenthyciadau myfyrwyr.

Nododd Iwan fod gennym well perthynas â mwy o daleithiau gorllewin yr UE - Ffrainc a'r Almaen - ond mae angen datblygu perthnasoedd â gwladwriaethau eraill ac efallai y gellir gwneud hyn trwy swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn y gwledydd hynny. Mae Addysg Uwch yn rhan bwysig o'r drefn fasnachu newydd yn Ewrop, i'r DU ac i ymgysylltiad Cymru ag Ewrop. Mae rhaglenni symudedd fel Cymru Fyd-eang Darganfod hefyd yn rhoi cyfle i brifysgolion Cymru feithrin a datblygu partneriaethau ymhellach mewn gwledydd allweddol.

- Faint o gyfle sydd i Gymru gynyddu ei chyfran o'r myfyrwyr sy'n dod yma?

Dywedodd Matt fod gwahaniaeth o fewn addysg drawswladol ar sail partneriaeth rhwng graddau partneriaeth lawn a graddau cyd-gredyd. Mae graddau cyd-gredyd yn cynnig ffordd haws i mewn i addysg drawswladol, ac mae angen llai o amser a buddsoddiad ar gyfer y bartneriaeth. Mae'n cymryd tua 10 mlynedd i ddatblygu rhaglenni addysg drawswladol llawn, felly mae'n anodd gweld ffrwyth y llafur; hyd yn hyn, ychydig sydd i'w gweld wedi adfer y

buddsoddiad yn llawn. Mae angen i ni benderfynu pa fathau o addysg drawswladol rydym ni'n mynd i fuddsoddi ynddynt, a sut y byddwn ni'n cynnal partneriaethau.

6. Sylwadau i gloi gan y Cadeirydd

Dywedodd Rhun y byddwn yn crynhoi themâu a'r syniadau a drafodwyd mewn llythyr at y Prif Weinidog, sydd bellach yn gofalu am faterion ryngwladol, a'r Gweinidog Addysg.

Dywedodd Rhun fod Aelodau o’r Senedd yn ymwybodol o'r materion sy'n wynebu sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ar hyn o bryd a achoswyd gan y pandemig, a lle mae tueddiadau negyddol ar lefel y DU, mae angen inni edrych ar ble y gall Cymru, fel gwlad fach chwim, ddod o hyd i gyfleoedd.